GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

## Gwybodaeth i Rieni/Gofalwyr am y

# Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant

Mae marwolaeth plentyn yn drasiedi ac mae'r golled yn aml yn cael effeithiau dinistriol ar rieni, brodyr a chwiorydd, neiniau a theidiau a'r teulu ehangach a'r gymuned ac yn newid eu bywydau. Mae'n bwysig bod y marwolaethau hyn yn cael eu hadolygu fel y gallwn ddysgu oddi wrthynt er mwyn ceisio atal marwolaethau yn y dyfodol.

Mae Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant (CDRP) Cymru yn rhan o Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn cael ei rhedeg gan dîm bach. Rydym yn casglu gwybodaeth am yr holl farwolaethau plant yng Nghymru neu blant o Gymru y mae eu marwolaethau yn digwydd y tu allan i Gymru hyd at ddeunaw oed. Mae'r rhaglen yn derbyn gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol megis yr heddlu, asiantaethau iechyd ac ysgolion.

## Pam mae'r wybodaeth am farwolaeth fy mhlentyn yn bwysig?

Defnyddir yr wybodaeth i adolygu beth ddigwyddodd ac i weld beth y gellir ei ddysgu i atal yr un peth rhag digwydd i blentyn neu unigolyn ifanc arall. Nid ydym yn edrych ar bwy allai fod ar fai na phwy sydd ar fai. Rydym yn canolbwyntio ar welliannau ar gyfer y dyfodol.

## Pa wybodaeth mae'r Rhaglen yn ei chasglu?

Mae'r wybodaeth a gedwir ar y gronfa ddata yn cynnwys manylion personol am eich plentyn megis enw, cyfeiriad, dyddiad geni, hanes meddygol, gwybodaeth am ei enedigaeth (os yw'n berthnasol) a digwyddiadau yn arwain at ei farwolaeth. Gall hefyd gynnwys manylion personol megis enw, cyfeiriad, hanes meddygol pobl sy'n hysbys i'ch plentyn megis rhieni/brodyr a chwiorydd, os yw'r wybodaeth yn berthnasol i amgylchiadau eich plentyn.

## Beth a wneir gyda'r wybodaeth hon?

Er ein bod yn derbyn gwybodaeth ac yn adolygu pob marwolaeth plentyn yng Nghymru, nid ydym yn adrodd nac yn ymchwilio i blant unigol nac ar unrhyw beth a allai ddatgelu pwy yw plentyn.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth i wneud y canlynol:

- Disgrifio **patrymau ac achosion marwolaethau** gan gynnwys unrhyw dueddiadau
- Nodi cyfleoedd i **atal marwolaethau plant yn y dyfodol**
- **Nodi ffactorau y gellir eu hosgoi** a allai fod yn cyfrannu at farwolaethau plant yng Nghymru
- Rhannu'r canfyddiadau i **lywio gweithredu.**

**Mae adroddiadau ar gael ar ein gwefan.**

## Ble mae'r wybodaeth yn cael ei storio?

Mae'r wybodaeth ar y gronfa ddata am eich plentyn yn ddiogel ac yn hynod gyfrinachol. Tîm bach yn unig sydd â mynediad at wybodaeth adnabyddadwy. Rydym yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â pholisi cyfrinachedd a diogelwch Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ag egwyddorion y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018. Mae unrhyw wybodaeth a ryddheir yn amodol ar ganllawiau llywodraethu gwybodaeth llym.

Gobeithiwn y bydd pawb eisiau i wybodaeth yn ymwneud â'u plentyn gael ei chynnwys i'n helpu i atal yr un peth rhag digwydd i blentyn neu berson ifanc arall. Fodd bynnag gallwn ddileu eich manylion chi/eich plentyn os dymunwch.

Os yw teuluoedd a gofalwyr am i wybodaeth benodol gael ei chynnwys, gallant gysylltu â ni.

## I gael rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn prosesu data personol, gweler hysbysiad preifatrwydd y sefydliad sydd ar gael yma:

icc.gig.cymru/defnydd-y-safle/hysbysiad-preifatrwydd

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, cysylltwch â:**

Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant
Iechyd Cyhoeddus Cymru,
Rhif 2 Capital Quarter,
Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ

ChildDeath.Review@wales.nhs.uk

icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/rhaglen-adolygu-marwolaethau-plant1

**Gellir dod o hyd i restr o sefydliadau sy'n cynnig cymorth ar ein gwefan uchod.**